Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr BRIDGEND County Borough Council

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol / Operational and Partnership Services**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: (01656) 643148/643147
Gofynnwch am / Ask for: Michael Pitman

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 12 Ebrill 2018

Annwyl Cynghorydd,

**PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL**

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Y Cabinet Dros Faterion Rhieni Corfforaethol yn Ystafelloedd Pwyllgor 2/3 - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Mercher, 18 Ebrill 2018** am **14:00**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o Ddiddordeb
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 8
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 24/01/2018

4. Diweddariad Ar Sefydlu Fframwaith Cenedlaethol Maethu A Gwaith Presennol Mewn Perthynas Â Darpariaeth Gofal Maeth — 9 - 16

5. Materion Brys
   I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant
**P A Jolley**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol

**Dosbarthiad:**

| Cynghowrwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|
| N Clarke | Cyng | PJ White |
| HJ David | JC Radcliffe | HM Williams |
| DK Edwards | CE Smith | RE Young |
| J Gebbie | CA Webster | |
| RM James | DBF White | |

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 24 IONAWR 2018, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd PJ White – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | HJ David | DK Edwards | J Gebbie |
| Cyng | CE Smith | CA Webster | HM Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro) |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |

160. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

161. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim.

162. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet 18 Hydref 2017 fel cofnod gwir a chywir.

163. AROLYGIAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU - HUNANASESIAD IONAWR 2018 – GOFAL CYMDEITHASOL PLANT

Cyflwynodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant adroddiad yn hysbysu Pwyllgor y Cabinet am yr hunanasesiad y gofynnwyd i'r holl awdurdodau ei gynnal mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phroffil gadawyr gofal, digonolrwydd a sefydlogrwydd lleoliadau ac effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r gofynion rheoliadol ar leoliadau y tu allan i'r awdurdod. Roedd yn rhaid dychwelyd yr asesiad wedi ei gwblhau at Arolygiaeth Gofal Cymru erbyn y 26$^{ain}$ o Ionawr 2018.

Amlinellodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y data/canfyddiadau allweddol oedd wedi eu cynnwys yn yr asesiad. Eglurodd nad oeddent wedi gallu gweithio ar yr asesiad cyn y 1$^{af}$ o Ionawr 2018 oherwydd mai am y ffigurau ar y 1$^{af}$ o Ionawr 2018 y gofynnwyd. Nid oedd yr asesiad wedi ei gwblhau eto ond roedd hi wedi crynhoi rhai o'r penawdau a'i sylwadau hi ar y canfyddiadau. Esboniodd mai bwriad yr hunanasesiad oedd cael darlun o gymhlethdod proffil plant sy'n derbyn gofal a gadawyr gofal ar draws Cymru ac annog

awdurdodau i werthuso effeithiolrwydd eu trefniadau a nodi unrhyw faterion oedd yn effeithio ar blant sy'n derbyn gofal a gadawyr gofal.

Amlinellodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant saith thema'r hunanasesiad, sef proffil, sefydlogrwydd a digonolrwydd lleoliadau, gofal a chymorth, panelau lleoliadau a threfniadau hysbysu, ymyrryd yn gynnar, diogelu a'r gweithlu.

Gyda golwg ar y proffil, adroddodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant mai gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) yr oedd y nifer pedwerydd uchaf o blant yn derbyn gofal ar ddiwedd Mawrth 2017. Roedd pob awdurdod wedi gweld cynnydd yn nifer y plant oedd yn derbyn gofal ac roedd hyn i'w weld yn thema ar draws Cymru.

Eglurodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod yna ostyngiad wedi bod yn nifer y plant a osodwyd gyda gofalwyr maeth annibynnol, o 22% ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf i 18.3% ym mis Ionawr 2018. Ychwanegodd fod 69.7% wedi eu gosod o fewn yr awdurdod lleol, oedd yn welliant ar flynyddoedd blaenorol er bod nifer y plant a symudwyd 3 neu fwy o weithiau yn y 12 mis diwethaf yn dal yn her.

Adroddodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant, yn dilyn gwaith ataliol gydag asiantaethau oedd yn bartneriaid a'r heddlu yn neilltuol, ei bod yn ymddangos fod yna duedd ostyngol oedd yn lleihau risgiau i blant oedd yn derbyn gofal. Hefyd, roedd 20% o blant oedd yn derbyn gofal yn derbyn gwasanaethau therapiwtig.

Esboniodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y byddai'r camau nesaf yn cynnwys dadansoddiad ansoddol o'r data, a chynnwys y wybodaeth honno yn yr hunanasesiad, i'w gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru erbyn y 26ain o Ionawr 2018. Wedyn, byddai yna gyfarfod herio perfformiad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ym mis Mawrth o bosibl, pan fyddai'r wybodaeth a roddwyd yn cael ei chwestiynu. Ar ôl hynny, cynhelid arolygiadau gwaith maes mewn chwe awdurdod ond nid oedd BCBC wedi derbyn hysbysiad ei fod yn un o'r chwech. Yn dilyn hynny, câi'r canfyddiadau a'r dadansoddiad eu defnyddio yn sail i adroddiad cyffredinol cenedlaethol, dadansoddiad blynyddol gan Arolygiaeth Gofal Cymru o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a gwasanaethau a reoleiddir.

Gofynnodd Aelod am eglurder ynghylch y 5% o blant ag anableddau oedd yn derbyn gofal. Gofynnodd faint o'r 5% oedd wedi eu cynnwys yn y 2.1% mewn llety byw gyda chymorth neu ysgolion preswyl. Nid oedd y wybodaeth wrth law gan Bennaeth Gwasanaethau Plant ond cytunodd i ddod o hyd i'r manylion a'u hanfon at yr Aelod.

Gofynnodd Aelod pa gamau oedd yn cael eu cymryd i godi ysbryd y staff. Dywedwyd wrtho y byddid yn ymdrin â hyn dan yr eitem nesaf.

Gofynnodd Aelod pam mai nifer cymharol fychan yn unig o blant (54%) oedd yn aros gyda'r un gweithiwr cymdeithasol ar ôl chwe mis, er y byddai hyn yn brofiad trawmatig iawn iddynt. Eglurodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y gallai'r 46% arall fod am amrywiol resymau megis plentyn yn cael ei asesu a'i symud i dîm gwahanol am ofal tymor hirach o bosibl mewn canolfan lle y gellid ffurfio cysylltiad agos â'r teulu. Wrth i blant ddod yn hŷn, roeddent yn cael eu trosglwyddo i dîm y gadawyr gofal ac mewn rhai achosion byddai'r gweithiwr cymdeithasol wedi gadael yr awdurdod neu wedi symud i faes gwahanol ac felly byddai'n rhaid trosglwyddo'r achos. Gwneid pob ymdrech i roi sefydlogrwydd i'r plentyn.

Roedd yr Arweinydd yn croesawu'r canlyniadau cadarnhaol ac yn arbennig y gostyngiad yn nifer y plant oedd yn cael eu gosod y tu allan i'r sir a'r gostyngiad yn nifer y lleoliadau yn y sector annibynnol. Nododd fod cymhlethdod achosion yn ymddangos fel pe bai'n

cynyddu a gofynnodd ai ym Mhen-y-bont ar Ogwr yr oedd hyn yn digwydd ac a oedd unrhyw ffordd o fesur hyn. Esboniodd Pennaeth Gwasanaethau Plant fod llawer o ddiddordeb wedi bod yn genedlaethol yn rhai o'r heriau gyda phlant oedd yn derbyn gofal a dod o hyd i leoliadau addas iddynt. Roedd yn parhau i fod yn her ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac roedd yn un o'r rhesymau pam yr oedd yn rhaid gosod plant y tu allan i'r sir oherwydd diffyg y ddarpariaeth arbenigol o fewn yr awdurdod i ateb anghenion y plant hynny. Roedd yna garfan fechan o blant â phroblemau cymhleth ac roedd dod o hyd i leoliadau addas i'r rhain yn dal i fod yn broblem.

Gofynnodd Aelod pa dueddiadau a data y byddid yn eu dilyn wrth fynd ymlaen. Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Plant fod yna nifer o adrannau o dan bob thema y byddai gofyn iddynt edrych arnynt. Byddai'r staff yn tynnu sylw at themâu a mannau problemus ac yn edrych ar gymariaethau gyda blynyddoedd blaenorol ac yn adrodd am eu canfyddiadau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod a oedd yna duedd waelodol yn yr 11.5% o blant gyda 3 neu ragor o symudiadau yn y 12 mis diwethaf ac a oeddent wedi gofyn am arweiniad ynghylch arferion gorau. Esboniodd Pennaeth Gwasanaethau Plant fod y ffigur hwn yn cael ei fonitro'n fanwl. Roedd yn ymddangos fod yna ddau fath o blentyn yr oedd hyn yn effeithio arnynt, plant ifanc iawn ar y naill law, a symudwyd ar enedigaeth ac a aeth o bosibl i leoliad nad oedd yn gweithio ac a gafodd eu symud wedyn i leoliad mwy addas, a phlant yn eu harddegau ar y llaw arall gyda phroblemau cymhleth. Câi'r data ei gwestiynu bob chwarter ac roedd yn ymddangos fod yna welliant yn y ffigurau. Awgrymodd Aelod y byddai'n ddefnyddiol cael set o ystadegau ar wahân ar gyfer plant yn eu harddegau.

Gofynnodd Aelod mewn faint o achosion y bu ymyriad cynnar a faint oedd yn gysylltiedig â manteisio'n rhywiol ar blant a masnachu mewn plant. Nid oedd y wybodaeth hon ar gael yn y cyfarfod ond deuid â hi i gyfarfod yn y dyfodol.

Nododd Aelod fod gan 96% o blant gynllun gofal cyn dod yn blant oedd yn derbyn gofal a gofynnodd pam yr oeddent wedi dod i fod yn blant oedd yn derbyn gofal. Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Plant eu bod hwythau wedi gofyn yr un cwestiwn a bod IPC wedi cael eu cyfarwyddo i gynnal adolygiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr i weld beth oedd ac nad oedd yn gweithio ac adrodd am y canfyddiadau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod pa mor aml yr oedd cynghorwyr personol yn cael cysylltiad â gadawyr gofal. Dywedwyd wrthi ei fod yn amrywio yn dibynnu ar oedran a bod rhai o'r gadawyr gofal hŷn yn neilltuol o anodd i ymgysylltu â hwy.

Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod yr ymarferiad wedi bod yn un anodd iawn ac nad oedd hi bob amser yn glir pa wybodaeth y gofynnid amdani a bod hynny wedi arwain at sgyrsiau yn ôl ac ymlaen i gael eglurder. Roedd yna fwy o wybodaeth nad oedd ar gael eto. Roedd adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu yr wythnos flaenorol oedd yn ymdrin â'r strategaeth o gwmpas maethu a rhai o'r materion a godwyd heddiw.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor y Cabinet yn nodi'r wybodaeth a roddwyd yn yr adroddiad.

164. AROLYGIAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU – AROLYGU GWASANAETHAU PLANT IONAWR/CHWEFROR 2017 – DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN GWEITHREDU

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, adroddiad ar y Cynllun Gweithredu a ddiweddarwyd yn dilyn arolygu Gwasanaethau

Plant ym mis Ionawr/Chwefror 2017. Esboniodd fod yr arolygiad a gynhaliwyd yng Ngwasanaethau Plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi canolbwyntio ar y ffordd yr oedd plant a theuluoedd yn cael eu galluogi i gael mynediad at gymorth a gwasanaethau gofal a chefnogaeth ac ansawdd y canlyniadau oedd yn cael eu sicrhau ar gyfer plant mewn angen am gymorth, gofal a chefnogaeth a/neu amddiffyniad gan gynnwys plant oedd yn derbyn gofal. Cynhaliwyd yr arolygiadau yn yr wythnosau yn cychwyn ar 30 Ionawr 2017 a 13 Chwefror 2017.

Amlinellodd Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yr arolygiad, y sampl o achosion a gymerwyd a'r cyfweliadau unigol ac mewn grŵp gyda rheolwyr, Aelodau, partneriaid a darparwyr gwasanaethau. Adroddodd Arolygiaeth Gofal Cymru am eu canfyddiadau ar eu gwefan i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chyflwynasant adroddiad a Chynllun Gweithredu i Bwyllgor Craffu 2 ym mis Gorffennaf 2017. Ymrwymwyd hefyd i ddod â'r adroddiad i Bwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet.

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod Arolygwyr wedi canfod bod yr awdurdod wedi gweithio'n galed yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, i ailsiapio ei wasanaethau. Canfu'r arolygiad fod y gweithlu yn ymrwymedig i sicrhau canlyniadau da ar gyfer plant a theuluoedd ond mai amrywiol oedd ysbryd y staff ar draws y gwasanaeth a bod angen ei feithrin ar adeg o newid sylweddol. Dylai Pen-y-bont ar Ogwr barhau i ganolbwyntio ar y modd y gallent gadw staff am fwy o amser a recriwtio staff profiadol yn gynt. Roedd y Cynllun Gweithredu yn mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn ac eraill.

Gofynnodd Aelod pa gamau oedd wedi cael eu cymryd i wella ysbryd y staff, a oedd cyfweliadau ymadael wedi cael eu cynnal a beth oedd y rhain wedi ei ganfod. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod darn o waith wedi cael ei wneud ar recriwtio, cadw a chefnogi gweithwyr cymdeithasol. Roedd cyfathrebu rheolaidd gyda'r staff ynghyd â mynediad at reolwyr uwch, rhaglen hyfforddi gefnogol, cynlluniau mentora ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr a pholisi goruchwylio newydd er mwyn sicrhau cysondeb dull. Câi beichiau gwaith hefyd eu monitro'n ofalus er mwyn atal staff rhag cael eu trechu gan waith. Cynhaliwyd cyfweliadau ymadael ac roedd adborth cadarnhaol wedi cael ei dderbyn ynghylch y cymorth a roddwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gadael oherwydd cael dyrchafiad neu er mwyn gweithio'n nes i'w cartref.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a dywedodd ei fod wedi ei galonogi gan y cynnydd oedd wedi cael ei wneud. Roedd yna rai camau yn dal heb eu cyflawni ac roedd nifer yn ymwneud â datblygu'r ganolfan ddiogelu amlasiantaethol. Gofynnodd yr Arweinydd am ddiweddariad ar ddatblygiad y ganolfan. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mai'r unig fater oedd yn atal datblygu oedd llety. Roedd y tîm eisoes yn gweithio'n 'rhithiol'. Roedd y llety mwyaf derbyniol wedi ei ddarganfod a'i gytuno. Roedd y Prisiwr Ardal wedi ymweld â'r eiddo ac wedi adrodd yn ôl ac roedd y gwaith papur i fod i gael ei lofnodi gan y Rheolwyr Corfforaethol drannoeth. Disgwyliai y byddai'r MASH yn ei le erbyn y 1af o Ebrill 2018.

Gofynnodd Aelod beth oedd lefel dderbyniol baich achosion a beth oedd y rhaniad rhwng gweithwyr cymdeithasol haenau 1 a 2. Roedd yn bryderus bod yr awdurdod yn drwm ar y top gyda gweithwyr cymdeithasol haen 1, oedd yn fwy profiadol, ac y disgwylid iddynt reoli eu baich achosion a mentora staff newydd. Eglurodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant nad oedd yna fformiwla penodedig ar gyfer beichiau achosion ond mai'r cyfartaledd ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd oddeutu 18, yn dibynnu ar gymhlethdod pob achos. Roedd proffil y gweithlu yn newid ar draws y timau. Yn y timau diogelu, roedd yna gryn nifer o weithwyr cymdeithasol oedd newydd ymgymhwyso ac

roedd llawer o waith wedi ei wneud i ddenu ymarferwyr mwy profiadol i Ben-y-bont ar Ogwr. Roedd cynllun 'tyfu eich gweithwyr eich hunain' wedi cael ei sefydlu ychydig flynyddoedd yn ôl. Roedd gwelliant wedi bod yn y nifer oedd yn cael eu cadw ond roedd mwy o waith eto i gael ei wneud. Esboniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ei bod yn bwysig sicrhau bod y rheolwyr cywir ar gael i gynorthwyo staff. Eglurodd fod 21 o weithwyr cymdeithasol newydd wedi cychwyn ar draws y gwasanaeth. Hyd yma, dim ond 1 oedd wedi gadael ac roedd hi'n edrych ymlaen at sesiwn adborth gyda'r person dan sylw yr wythnos ddilynol.

Gofynnodd Aelod pa waith oedd yn cael ei wneud ar y cyd gyda'r awdurdod iechyd ynghylch darparu cymorth cynnar mewn ysgolion ac a oedd yna gydweithredu ariannol hefyd. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros dro, Addysg a Chymorth i Deuluoedd, a oedd hyn mewn perthynas â CAMHS. Eglurodd yr Aelod ei bod hi'n ceisio darganfod pa lefel o gydweithredu oedd yna gyda BCBC a phwy oedd yn talu amdano. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod y prif gyswllt gydag ymwelwyr iechyd mewn perthynas â diogelu ac nad oedd yna gyfraniad ariannol am hyn oherwydd nad hynny oedd yr hyn oedd ei angen ar yr adeg honno. Esboniodd y Rheolwr Grŵp, Gweithio Integredig a Chymorth i Deuluoedd, fod yna amrywiol adnoddau o ran gwasanaethau cymorth cynnar, megis Dechrau'n Deg, lle roedd cyfraniadau yn cael eu gwneud at gostau cyflogau ymwelwyr iechyd neu fydwragedd. Roedd gweithio ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Iechyd yn drefniant cadarnhaol.

Gofynnodd y Prif Weithredwr a oedd digon yn cael ei wneud mewn perthynas â chanolbwyntio ar ganlyniadau. Byddai'n hawdd cael eich tynnu i mewn i'r broses o gwrdd â'r argymhellion ac anghofio'r canlyniadau, e.e. weithiau nid yw'r Arolygiaeth yn ei gwneud yn glir beth fydd canlyniad rhyw argymhelliad. Eglurodd ei bod yn bwysig deall bod rhywbeth yn digwydd o ganlyniad i gwblhau rhyw gam arbennig. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod yr arolygiad wedi cael ei gynnal ar yr un adeg ag yr oedd systemau yn cael eu sefydlu. Roedd y daith o drawsnewid yn achosi newid ymarfer a newid diwylliannau. Roeddent wedi cymryd seibiant oddi ar y daith honno er mwyn ateb gofynion yr arolygiad. Gwahoddwyd IPC i mewn i gynnal adolygiad pellach a byddai adroddiad ar hynny yn cael ei gyflwyno cyn bo hir. Roedd y broses sicrhau ansawdd hefyd wrthi'n cael ei sefydlu.

Awgrymodd yr Arweinydd fod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ymhen chwe mis er mwyn sicrhau bod cynnydd yn dal i gael ei wneud.

PENDERFYNWYD: 1) Bod Pwyllgor y Cabinet yn derbyn ac yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu wedi ei ddiweddaru.
2) Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ymhen chwe mis.

165. EITEMAU BRYS

Dim

166. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael ei gau allan o'r cyfarfod tra roedd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei hystyried gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi ei heithrio fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan

Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

Yn dilyn cymhwyso prawf diddordeb y cyhoedd wrth ystyried yr eitem hon, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, ystyried yr eitem yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi cael ei gau allan o'r cyfarfod gan y byddai yn cynnwys datgelu gwybodaeth oedd wedi ei heithrio, o natur fel a ddatganwyd uchod.

167. CYMERADWYO COFNODION WEDI EU HEITHRIO

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion eithriedig Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet 18 Hydref 2017 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:20

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**REPORT TO CABINET COMMITTEE - CORPORATE PARENTING**

**18 APRIL 2018**

**REPORT OF THE CORPORATE DIRECTOR, SOCIAL SERVICES AND WELLBEING**

# UPDATE ON THE ESTABLISHMENT OF A NATIONAL FOSTERING FRAMEWORK (NFF) AND CURRENT WORK IN RELATION TO IN HOUSE FOSTER CARE PROVISION.

## 1. Purpose of Report.

1.1 The purpose of the report is to provide the Corporate Parenting Committee with background information about and update regarding the progress of work undertaken on establishing a National Fostering Framework in Wales.

1.2 Provide the Corporate Parenting Committee with updated information about Bridgend Foster Care service provision and the fostering service review that is underway.

## 2. Connection to Corporate Improvement Plan / Other Corporate Priority.

2.1 The report links to all of the corporate priorities:

- Helping people to be more self-reliant;
- Smarter use of resources;
- Supporting a successful economy.

## 3. Background

### National Fostering Framework

3.1 For many years, key stakeholders have advocated for greater collaboration across all sectors, to address strategically the growing concerns about the overall effectiveness and sustainability of fostering services in Wales. The creation of a National Framework was seen as a means of ensuring that known concerns are addressed and of introducing greater consistency without sacrificing the acknowledged strengths and diversity of local accountability within the current system.

### Phase One

3.2 In 2015 the Minister for Health and Social Services endorsed the framework proposal and provided funding from investment by Welsh Government to prevent children from entering care and improve outcomes for those leaving care. The agreement for the establishment of a National Fostering Framework reflected both the scale of people’s concerns and also the need to support effective change, tackling some major challenges which could only be addressed at a strategic level. Above all was the acknowledgement that a National Fostering Framework will aim to achieve:

- improvement in permanence planning for children and quality of placement provision;
- a more cogent, compelling and strategic intent in relation to fostering services;
- increased collaboration and co-operation by all key stakeholders:
- sector-led improvements:
- greater transparency about performance of fostering services and efficient use of resources;
- economies of scale, where appropriate, but with a respect for localism;
- more shared services in planning and commissioning;
- consistent use of ‘Best Practice’ models for recruiting and supporting foster carers; and
- closer links to research and evaluation.

3.3 A ‘First Thoughts’ paper on the National Fostering Framework identified some suggestions for how this work might move forward. A programme of engagement and consultation was undertaken to find out what key stakeholders thought about proposals in the First Thoughts Paper. It was acknowledged that this was the start and further work would be required.

Alongside the consultation programme, a Resources and Performance sub-group was also established to focus on the development of a national performance framework, giving consideration to what information is needed to be able to manage fostering services more effectively.

As a result of the programme of engagement and consultation a Phase one report was produced and submitted to Welsh government. This report made a number of recommendations for how the National Fostering Framework work should be taken forward. These were as follows:

1. Develop a National Fostering Framework, including the allocation of functions at national, regional and local levels and begin putting in place the appropriate structures (Year one).
2. Introduce a national performance and resource framework aligning this with the work to deliver (WCCIS). A phased approach to implementation will be developed. A distinct performance framework to be developed for the independent sector (commercial and Third Sector providers) (Year one).
3. Introduce a national website, social media, brand identity for foster care in Wales, to underpin a marketing strategy for recruiting foster carers and improving communication. (Year one)
4. Ensure greater consistency in the use of Kinship Foster Care for Children who are looked after, building on the initial scoping paper in Phase One. (Year One)
5. Develop national arrangements for the commissioning of all placements regardless of sector, but building on the work of the 4Cs (Childrens Commissioning Consortium Cymru).(Year one)
6. Benchmark best practice in corporate parenting across Councils and other public services to improve outcomes for children and increase resilience for foster care placements.(Year one)
7. Establish the right balance between Local Authority foster care, third sector providers and commercial providers in terms of national policy objectives, service quality considerations and value for money requirements. (Year two)

8. Produce a national policy framework for fostering services, to include the training and support of foster carers. (Year two)
9. Establish an all-Wales public service fostering collaborative, delivering services regionally and locally, incorporating all the relevant services directly provided by Local Authorities. (Year three)
10. Harmonise policies for paying fees and allowances to Local Authority foster carers (Year three)

**Phase two**

3.4 A national strategic steering group was established which continues to meet on a bi monthly basis attended by Councillor Huw David, Leader of Bridgend County Borough Council. A further series of consultations took place across Wales with a wide range of stakeholders about what a 'National Fostering Framework' and its components should look like. The planned implementation plan was for 2017–2020. A grant monitoring group was also established to oversee the Welsh Government funding that had been agreed to achieve the aims of the project.

3.5 The work programme from phase 2 carried out during 2016-17 included:

**Work stream 1: Develop a National Fostering Framework including the allocation of functions at national, regional and local authority levels and begin putting into place the appropriate structures.**

- Set up small groups of key stakeholders: ADSS Cymru, WLGA, NAS, 4 Cs (Childrens Commissioning Consortium Cymru) and Association for Fostering and Adoption Cymru.

**Work stream 2: Introduce a national performance framework aligning this with the work being done to deliver the Welsh Community Care Information Service (WCCIS).**

- Nine Local Authorities (Bridgend County Borough Council included) volunteered to work on the draft national performance framework; they worked together on the codes/definitions for each of the performance measures and completed a dry run.

**Work stream 3: Introduce a national website, social media, brand and identity for Local Authority foster care in Wales, to underpin a marketing strategy for recruiting foster carers and improving communication.**

- Staff from 6 Local Authorities across Wales who are involved in the marketing and recruitment of foster carers have worked together. A visit to the North West of England Regional Collaborative has been undertaken to learn from their experience

**Work stream 4: Ensure greater consistency in the use of Kinship Foster care for children who are looked after.**

- The Association for Fostering and Adoption Cymru has led on this work. Regional events have been held in addition to a national conference in February 2017.

**Workstream 5:- Develop national arrangements for commissioning of all placements regardless of the sector and building on the work of the 4 Cs**

- The 4 Cs have taken a lead role on this recommendation. A national conference was held in October 2016, which was attended by the Group Manager Regulated Services and the commissioning and placements officer from Bridgend County

Borough Council. A working group of managers and commissioning officers are taking this forward

**Workstream 6:- Benchmark best practice in corporate parenting across Councils and other public services to improve outcomes for children and increase the resilience of foster care placements.**

- Voices from Care and Association for Fostering and Adoption Cymru have led on this recommendation. Regional events have been held in addition to a national conference took place in March 2017 which was attended by the Group Manager Regulated Services and the Team Manager of Bridgend Foster Care.

**Work stream 7:- Harmonise policies for paying fees and allowances to local authority foster carers.**

- The Fostering Network has led on this work. A survey of all Local Authorities fees and allowances has been undertaken to map the picture across Wales.

## 4. Current situation.

**Phase Three**

4.1 Phase 3 commenced in 2017 and included the National Adoption Service (NAS) central team being expanded and developed in order to provide unity and coordination, supporting the coordination and leadership of the National Fostering Framework. There is no statutory basis for the National Fostering framework; however, it is recognised as a national commitment with a strong intent for improvement.

4.2 There are now regional development managers being appointed throughout Wales to engage with the national work streams and coordinate plans for delivery in their areas. Swansea is hosting this post for Western Bay.

4.3 The work programme upon which the regional plans are being developed is outlined below:

4.4 **Work stream 1: Create capacity for an extended National Adoption Services central team to provide the co-ordination and leadership for the NFF.**

- Discussions to secure dedicated funding for the NFF post 2018-19 –complete
- Consider the possibility of developing a vision for a unified adoption and fostering framework once funding is secured and ring fenced post April 2018
- A Grant monitoring group has been set up

**Work stream 2:- Development of Regional work programmes based on the regional priorities identified by the national performance framework.**

- Discussions with the Heads of service with a view to setting up regional work programmes - complete
- The information and intelligence emerging from the national performance work will inform the development of the work programmes

**Work stream 3:- Implement the national performance framework across all Local Authorities to help shape the regional priorities.**

- All Local Authorities completed the national performance framework for 2016-17.

- Capacity is to be created to analyse data emerging from the Local Authority returns. A part time performance management post will be appointed.
- Work to continue to link the NFF performance framework with the Welsh Community Care Information System(WCCIS).
- Work has begun to establish a similar performance framework within the independent and third sectors.

**Work stream 4:- create an All Wales brand for Local Authority fostering. Establish a marketing strategy at regional and central level for the brand**

- Work has been undertaken on what activity could best be delivered at central, regional and local level and this is being incorporated into the regional plans.
- A part time national marketing officer has been appointed to lead on this.

**Work stream 5:- Increase capacity within the regions to respond to additional enquiries following the market activity:**

- Work is underway with regions to identify current recruitment processes.
- Map the nature of additional capacity required in each region to respond to an increase in enquiries and allocate funding as required.

**Work stream 6:- develop a national approach to commissioning of fostering services:**

- Capacity in the 4Cs has been established to lead on this work and they are producing a Step by Step Guide to Commissioning for Local Authorities

**Work stream 7:- develop consistent standards and Best Practice Guide for Kinship Care and Implementation Plan:**

- Work is being led by Association of Fostering and Adoption Cymru who, in conjunction with the regions, will develop implementation plans for the draft Best Practice guide.
- Plans in place to begin dialogue with the judiciary to ensure a consistent approach within the courts.

**Work stream 8:- continue work on harmonising fees and Allowances for foster carers:**

- Work is being led by the Fostering Network
- Mapping out of fees and allowances across the regions has been completed
- A working group has been established with representation from each region to develop a plan as to how greater harmonisation can be achieved.

**Work stream 9:- Develop a national training framework for foster carers:**

- Association for Fostering and Adoption Cymru, Fostering Network and Social Care Wales have an outline plan to, in conjunction with the regions, develop a draft national training framework.
- Consultation events will take place in North and South Wales.

4.5 Officers of Bridgend County Borough Council are represented on the work streams to ensure any developments happening locally in this area of service are consistent with those that are planned nationally.

**Bridgend Foster Care**

4.6 Bridgend Foster Care currently offers fostering services for:

- General foster care - short term, long term, support care and respite.
- The Family Link Scheme - disabled children's respite.
- Supported Lodging – non regulated service offering homes for young people leaving care who are assessed as needing further support to transition to adulthood.
- Parent and Child scheme
- Private Fostering
- Relative foster carers
- Regulation 26 carers (emergency placement with family or friends)

4.7 As at February 28th 2018 within Bridgend Foster Care:

- There were 111 approved Fostering households for general foster placements;
- There were 159 children placed with in-house general foster carers;
- There were 56 approved fostering households for relative foster placements;
- There were 75 children placed with independent fostering agencies.

4.8 A review of Bridgend Foster Care is underway to ensure maximisation of the service potential and development of the approach/model in a way that is consistent with the Residential Placements & Services remodelling project and the National Fostering Framework.

4.9 The review has a number of work streams as outlined below:-

- **Workstream One: Capacity, Competency and systems review:**

    - Work has been undertaken to establish the profile of current Bridgend foster carers, where within Bridgend they reside, their level of experience and aspirations in their career development.
    - Plans are in place to deliver a 16 week induction training plan for newly approved foster carers. This will improve and enhance their existing skills and knowledge to promote stability and sustainability for children in their care.
    - Development of systems that monitor and process placement demands and 'children leaving care' are being progressed.
    - Establishment of a system on WCCIS for placements to ensure that all placement searching and matching activity carried out is accurately recorded for children and young people using information from the Children's Commissioning Consortium Cymru (4 Cs) (as defined above at paragraph 3.3, sub paragraph 5) and to better inform the commissioning plan.
    - Review the current Independent Placement Matching form and provide training and support to safeguarding teams.
    - Develop a placement monitoring process for reviewing independent fostering providers with placements under 16 weeks.

- **Workstream Two:- Recruitment and retention:**

    - Work with the marketing department to develop and promote specialist recruitment campaigns for transition carers, promotion of fostering fortnight and supported lodgings.
    - The current carer recruitment and development programme is under review to improve career development opportunities for in-house foster carers and

ensure the Local Authority is competitive with independent fostering providers.
- Improving and enhancing support and supervision to in-house foster care households through engagement and consultation forums.

- **Workstream Three - Developing specialist foster carers:**
  - Developing a support package and an enhanced training programme which will enhance the skills and knowledge of practitioners within the placements hub.
  - The recruitment of a psychologist to support and advise professionals working with complex children and families.

- **Workstream 4 – Finance**
  - A review of the financial packages for carers is being undertaken, this will include benchmarking in line with independent fostering agencies and other Local Authorities using the National Fostering Framework data.

4.10 The findings from this review will be collated into a report which will present recommendations and options with regard to any changes to systems, finance, policies and structure in the service.

**5. Effect upon Policy Framework and Procedure Rules.**

5.1 There are no legal implications arising from this report.

**6. Equality Impact Assessment**

6.1 This report is concerned with performance information rather than policy or decision making therefore an equality impact assessment is not applicable.

**7. Financial Implications.**

7.1 There are no specific financial implications arising directly out of this report.

**8. Recommendation.**

8.1 That the Cabinet Committee notes the updated information contained within the report and supports the further development of the Bridgend Foster Care service as set out above.

**Susan Cooper**
**Corporate Director, Social Services and Wellbeing**
**March 2018**

**9. Contact Officer:** **Natalie Silcox**
**Telephone:** (01656) 642316
**e-mail:** Natalie.silcox@bridgend.gov.uk
**Postal Address** Children's Directorate, Civic Offices, CF31 4WB

**10. Background documents**
None

This page is intentionally left blank